Canllawiau

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

# Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy

Gorffennaf 2016

OGL © Hawlfraint y Goron 2016 WG28335 ISBN digidol: 978 1 4734 6218 2

# Canllawiau i Awdurdodau Lleol ar Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy

Gorffennaf 2016

# CYNNWYS


1. CYFLWYNIAD ........ 6
2. CYD-DESTUN A CHWMPAS CYNLLUNIAU GWELLA HAWLIAU TRAMWY ........ 9
Y fframwaith statudol ........ 9
Dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol eraill ........ 10
Cysylltiadau â chynlluniau eraill ........ 12
Cyllid ac adnoddau ........ 13
3. DATBLYGU CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY NEWYDD ........ 14
Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ar y cyd ........ 15
Rôl Fforymau Mynediad Lleol ........ 15
Datblygu dogfennau hygyrch ........ 18
Enwi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy eich awdurdod ........ 18
4. PARATOI’R ASESIAD NEWYDD ........ 19
Ymgynghoriad cychwynnol ........ 19
Gwneud asesiad newydd ........ 19
Materion statudol ........ 20
Materion atodol ........ 20
Gwerthuso’r broses o gyflawni’r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy blaenorol ........ 20
Gwerthuso cyflwr presennol y rhwydwaith a’i gofnod cyfreithiol ........ 21
Mynd i’r afael â materion statudol ac atodol ........ 22
Asesu angen y cyhoedd a nodi cyfleoedd ........ 22
Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru ........ 24
Gwneud defnydd o gynlluniau ac asesiadau lleol ........ 26
Mapiau Teithio Llesol ........ 26
Asesiadau a Chynlluniau Llesiant Lleol ........ 27
Datganiadau Ardal ........ 28
Cynlluniau eraill ........ 29
Ystyried buddiannau rheolwyr tir, treftadaeth a chadwraeth natur ........ 30
Casgliadau’r Asesiad ........ 30
5. PARATOI’R DATGANIAD GWEITHREDU NEWYDD ........ 32
Beth ddylid ei gynnwys? ........ 32
Datganiadau Gweithredu a Chynlluniau Cyflawni ........ 32
Cynnwys y Datganiad Gweithredu ........ 33
6. DATBLYGU AC ADNEWYDDU CYNLLUNIAU CYFLAWNI ........ 34
Gwerthuso’r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ........ 35

Adolygu polisïau hawliau tramwy .......... 35
Pennu Cynlluniau Gwaith CAMPUS .......... 36
7. CYHOEDDI A HYRWYDDO’R CYNLLUN DIWYGIEDIG .......... 38
Cyhoeddi’r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft .......... 38
Cyhoeddi’r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy terfynol .......... 39
Cyhoeddi Cynllun Cyflawni ar ei newydd wedd .......... 39
8. RHOI’R CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY AR WAITH .......... 41

## RHESTR EIRFA

| | |
|---|---|
| AHNE | Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol |
| APC | Awdurdod Parc Cenedlaethol |
| Awdurdod Priffyrdd Lleol | Y corff sy'n gyfrifol am gynnal a chadw'r rhwydwaith priffyrdd mewn ardal – y Cyngor Sir neu'r Awdurdod Unedol fel arfer. |
| CAMPUS | Cyraeddadwy, Amserol, Mesuradwy, Penodol, Uchelgeisiol, Synhwyrol |
| CNC | Cyfoeth Naturiol Cymru |
| CROW neu Ddeddf CROW | Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 |
| Cyfyngiad | Strwythur fel gât neu gamfa sydd wedi'i gofnodi yn y datganiad diffiniol |
| DMMO | Gorchymyn Addasu Map Diffiniol – Gorchymyn cyfreithiol a wnaed i newid map a datganiad diffiniol yn seiliedig ar dystiolaeth. Gellir eu defnyddio i ychwanegu, diddymu neu newid hawliau tramwy lle mae'r dystiolaeth yn cefnogi hynny. |
| Fforwm Mynediad Lleol | Fforwm Mynediad Lleol; roedd Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Priffyrdd Lleol ac Awdurodau Parciau Cenedalethol i sefydlu Fforwm Mynediad Lleol ar gyfer eu hardal. Rhaid iddynt gynnwys aelodau sy'n cynrychioli defnyddwyr eu tir mynediad lleol a hawliau tramwy lleol, perchnogion a deiliaid tir mynediad a thir â hawliau tramwy, a budiannau eraill sy'n arbennig o berthnasol i'r ardal. |
| GIS | System Gwybodaeth Ddaearyddol; dull mapio digidol. |
| LDP/CDLl | Cynllun Datblygu Lleol; rhaid i bob Awdurdod Cynllunio Lleol yng Nghymru baratoi Cynllun Datblygu Lleol ar gyfer eu hardaloedd. Maen nhw'n cynnwys polisïau cynllunio a dyraniadau safleoedd sydd, o'u mabwysiadu, yn cael eu defnyddio i benderfynu ar geisiadau cynllunio. |
| Map a Datganiad Diffiniol | Cofnod cyfreithiol o hawliau tramwy. Dogfen gyhoeddus a wneir gan yr Awdurdod Priffyrdd Lleol. |
| Nodwedd warchodedig | Ymadrodd a ddefnyddir yn Neddf Cydraddoldeb 2010 i gyfeirio at nodweddion a allai sbarduno achos uniongyrchol neu anuniongyrchol o wahaniaethu. Gweler paragraff 2.10. |
| PPO | Gorchymyn Llwybr Cyhoeddus – Gorchymyn cyfreithiol i newid map a datganiad diffiniol yn seiliedig ar y dewis a ffefrir. Gellir defnyddio Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus i greu, diddymu neu ddargyfeirio llwybr cyhoeddus. |
| ROW neu PROW | Hawl Tramwy Cyhoeddus |
| ROWIP | Cynllun Gwella Hawliau Tramwy |
| SoNaRR | Adroddiad o Gyflwr Adnoddau Naturiol |
| Strwythur awdurdodedig | Strwythur, fel gât neu gamfa, nad yw wedi'i gofnodi yn y datganiad diffiniol ond sydd wedi'i awdurdodi'n gyfreithlon; o dan adran 147 o Ddeddf Priffyrdd 1980 fel arfer |
| UCR | Ffordd wledig ddiddosbarth – term a ddefnyddir i ddisgrifio llawer o is-ffyrdd heb wyneb caled neu 'lonydd gwyrdd' |
| WORS | Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru |

## 1. CYFLWYNIAD

1.1. Nod y ddogfen hon yw cefnogi'r adolygiad dengmlwyddol cyntaf o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ["Cynlluniau Gwella"] yng Nghymru. Dylai awdurdodau gydymffurfio â'r canllawiau hyn dan adran 61(4) o Ddeddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000 ["Deddf CRoW"] ac maent yn disodli'r canllawiau blaenorol a gyflwynwyd yn 2002.

1.2. Mae Llywodraeth Cymru yn disgwyl i'r awdurdodau priffyrdd lleol ddefnyddio Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy er mwyn cynllunio'n strategol ar gyfer rheoli, datblygu, integreiddio a hyrwyddo eu rhwydwaith hawliau tramwy lleol.

1.3. Mae gwerthusiadau o ddatblygiad, cynnwys a darpariaeth y Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy wedi pwysleisio eu cryfderau a'r manteision a ddaeth yn eu sgil. Maent wedi amlygu gwelliannau posib hefyd a rhai meysydd na aethpwyd i'r afael â nhw'n gyson fel y bwriadwyd yn wreiddiol. Mae'r canllawiau hyn wedi'u llywio gan y dystiolaeth honno a thrwy ymgynghori â rhanddeiliaid. Gobeithio y bydd yn helpu awdurdodau i adeiladu ar sylfeini cadarnhaol y Cynlluniau Gwella gwreiddiol.

1.4. Cafodd 23 o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy eu cyhoeddi yng Nghymru rhwng 2007 a 2008 ac er bod rhai awdurdodau wedi edrych eto ar eu cynlluniau ers eu cyhoeddi, nid yw'r un awdurdod wedi cynnal adolygiad dan adran 60 (3) o Ddeddf CRoW. O'r herwydd, mae gofyn cynnal adolygiad statudol o bob Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yng Nghymru.

1.5. Mae sector cyhoeddus Cymru wedi newid yn aruthrol ers i'r cynlluniau cyntaf gael eu llunio; yn enwedig y cyd-destun deddfwriaethol yn sgil Deddf Llywodraeth Cymru 2006 a Deddfau dilynol yng Nghymru a'r hinsawdd economaidd bresennol a phwysau cysylltiedig ar y gyllideb.

1.6. Mae mwy fyth o angen hyd yn oed am gynllun clir gyda blaenoriaethau, sy'n seiliedig ar dystiolaeth, er mwyn targedu'r adnoddau cyfyngedig tra'n sicrhau'r budd mwyaf i'r cyhoedd trwy gyflenwi ar draws sawl maes polisi a chyfuno â gwasanaethau eraill.

*1.7.* Ceir cydnabyddiaeth eang i bwysigrwydd mynediad hamdden o safbwynt iechyd a lles. Mae adroddiad blynyddol Prif Swyddog Meddygol Cymru[1] yn nodi cysylltiadau clir rhwng gweithgaredd ac iechyd gan ddweud: "*Amcangyfrifwyd mai cost diffyg gweithgarwch corfforol yng Nghymru yw oddeutu £650 miliwn y flwyddyn. Mae gweithgarwch corfforol rheolaidd megis cerdded a beicio'n fuddiol iawn i iechyd gan gynnwys lleihau'r risg o glefydau cardiofasgwlar, diabetes, canser y colon a'r fron, ac iselder.*"

1.8. Mae tystiolaeth o Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru yn awgrymu, wrth gymharu â gweithgareddau awyr agored eraill, y gallai lefel yr egni sy'n gysylltiedig â llawer o'r gweithgareddau hamdden a'r mathau o dirweddau y gellir cael mynediant iddynt drwy'r rhwydwaith hawliau tramwy yn gallu bod yn hynod fanteisiol i iechyd: "*Looking at all outdoor visits in 2014, those where running, off-road cycling/mountain biking and/ or road cycling were the main activities undertaken were more likely than the average to have caused those taking the visit to state that they had been out of breath and/or sweating (96%, 94% and 88% respectively). This was also the case for visits where the main destination visited was hills, mountains or moorland (73%). Health benefits were less likely to be reported for visits where sightseeing/ visiting attractions (33%), picnicking (48%) or visiting children's playgrounds/ other outdoor areas (50%) were the main activities and for visits where other local open spaces (46%) or villages (46%) were the main destination.*"[2]

1.9. Ni ddylid anghofio'r cyfleoedd economaidd sy'n deillio o fynediad i gefn gwlad chwaith, er enghraifft, amcangyfrifiwyd bod Llwybr Arfordir Cymru yn unig yn gyfrifol am £33.2 miliwn o wariant ychwanegol yng Nghymru yn 2011/12 a £32.31 miliwn pellach yn 2012/13, ac wedi arwain at greu 28.2 o swyddi cyfwerth ag llawn amser[3].

1.10. Dylai awdurdodau priffyrdd lleol ddefnyddio'r Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy fel y prif ddull o nodi, blaenoriaethu a chynllunio gwelliannau i hawliau tramwy lleol a sut byddant yn mynd ati i'w rheoli o ddydd i ddydd – a thrwy hynny, yn gwneud darpariaeth well i'r

[1] http://gov.wales/docs/dhss/report/140929cmoreportcy.pdf
[2] https://naturalresources.wales/media/4757/wales-outdoor-recreation-survey-2014-final-report.pdf
[3] http://www.walescoastpath.gov.uk/media/1153/wales-coast-path-end-of-project-report-2007-2013.pdf

cyhoedd fwynhau pob math o weithgareddau hamdden awyr agored. Gall awdurdodau ehangu cwmpas eu cynlluniau hefyd i gynnwys Tir Mynediad a darpariaethau mynediad eraill sy'n bwysig yn eu hardal.

## 2. CYD-DESTUN A CHWMPAS CYNLLUNIAU GWELLA HAWLIAU TRAMWY

### Y fframwaith statudol

2.1. Dan adran 60(1) o Ddeddf CRoW, roedd hi'n ofynnol i bob awdurdod priffyrdd lleol gyhoeddi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar gyfer pob ardal o fewn pum mlynedd i'r dyddiad y daeth y ddeddf i rym[4]. Roedd hi'n ofynnol i awdurdodau, dan isadran (2), asesu i ba raddau yr oedd hawliau tramwy lleol yn bodloni gofynion y cyhoedd nawr ac yn y dyfodol; y cyfleoedd a ddarparir gan hawliau tramwy lleol (yn enwedig llwybrau troed, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig) i wneud ymarfer corff a mathau eraill o hamdden awyr agored a mwynhau eu hardal; a sicrhau bod hawliau tramwy lleol yn agored ac yn hygyrch i bobl ddall neu rannol ddall ac eraill â phroblemau symudedd.

2.2. Mae Adran 60(5) yn diffinio 'hawliau tramwy lleol' fel llwybrau cerdded, llwybrau beicio, llwybrau ceffylau a chilffyrdd cyfyngedig, yn ogystal â'r ffyrdd a ddangosir ar fapiau a datganiadau diffiniol fel cilffyrdd cyfyngedig a chilffyrdd sy'n agored i bob traffig ym mhob ardal awdurdod priffyrdd[5.] Mae llwybrau beicio gyda neu heb hawliau tramwy ar droed heblaw am rai ar - neu wrth ochr - priffordd sydd â lôn gerbyd â wyneb caled yn rhan o gwmpas Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

2.3. Mae Adran 60(1)(b) yn ei gwneud yn ofynnol i unrhyw Gynllun Gwella Hawliau Tramwy gynnwys datganiad o'r camau y mae awdurdod lleol yn bwriadu eu cymryd er mwyn rheoli hawliau tramwy lleol, a sicrhau gwell rhwydwaith o hawliau tramwy lleol; gydag ystyriaeth briodol i faterion sy'n rhan o'r asesiad.

2.4. Dan adran 60(3) a (4) o Ddeddf CRoW mae'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol wneud asesiad newydd, adolygu eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a phenderfynu a ydynt am ei ddiwygio neu beidio dim mwy na deng mlynedd ar ôl cyhoeddi'r cynllun blaenorol. Er nad yw'n

---

[4] Daeth i rym yng Nghymru ar 1 Tachwedd 2002 http://www.legislation.gov.uk/wsi/2002/2615/made/data.pdf

[5] Credir bod geiriad cymhleth y diffiniad yn adlewyrchu'r ansicrwydd pan gafodd Deddf CRoW ei drafftio yn sgil ailddosbarthiad awtomatig o'r ffyrdd oedd yn weddill a ddefnyddir fel llwybrau cyhoeddus fel cilffyrdd cyfyngedig yn amodol ar benderfyniad ar unrhyw orchmynion newid neu ailddosbarthu oedd yn weddill.

ofyniad statudol, rhagwelir y bydd y rhan fwyaf o gynlluniau diwygiedig yn cael eu cyhoeddi o fewn yr amserlen deng mlynedd. Disgwylir i'r rhai heb eu cwblhau o fewn deng mlynedd i gael eu cyhoeddi dim mwy na 12 mis wedi'r penderfyniad i'w diwygio. Yng Nghymru, mae hyn yn golygu y disgwylir i gynlluniau wedi'u hadolygu gael eu cyhoeddi rhwng 2017 a 2019; er bod croeso i awdurdodau eu cynhyrchu'n gynt os gallant. Ar ôl cwblhau'r asesiad newydd, mae'r gyfraith yn caniatáu i awdurdodau benderfynu nad oes angen diweddaru eu cynllun, ac os felly, mae'n ofynnol iddyn nhw gyhoeddi adroddiad am eu penderfyniad a'r rhesymau y tu ôl iddo. Fodd bynnag, o gofio'r newidiadau sylweddol i'r ddeddfwriaeth a'r adnoddau sydd ar gael, rhagwelir y bydd angen cynllun diwygiedig ar bob awdurdod yng Nghymru.

**Trefniadau ar gyfer Awdurdodau Parciau Cenedlaethol**

2.5. Dan adran 61(5), lle mae rhannau o ardal yr awdurdod o fewn Parc Cenedlaethol, gall yr awdurdod priffyrdd lleol wneud trefniadau i gynnal ei swyddogaethau Cynllun Gwella ar y cyd â'r awdurdod Parc Cenedlaethol hwnnw. Nid yw'r ddarpariaeth yn caniatáu i awdurdod y parc gynhyrchu ei Gynllun Gwella Hawliau Tramwy annibynnol ei hun, ond yn hytrach gweithio ar y cyd i ddatblygu cynllun yr awdurdod priffyrdd. Lle mae achos cryf dros greu cynllun penodol i Barc Cenedlaethol, sef lle mae'n cynnwys sawl awdurdod priffyrdd gwahanol, yna'n dechnegol, bydd cynllun o'r fath yn gyfuniad o rannau perthnasol o gynlluniau pob awdurdod lleol cyfansoddol. Rhaid i'r awdurdodau priffyrdd hynny gyfrannu'n ymarferol at ddatblygiad y cynllun, a bod yn fwy nag ymgynghorwyr yn unig. Bydd angen i bob cynllun a effeithir gynnwys datganiad clir ynghylch y berthynas rhwng eu cynlluniau. Bydd y ddyletswydd i gynnal adolygiadau yn parhau gyda'r awdurdod priffyrdd hyd yn oed lle mae cynllun penodol wedi'i lunio ar gyfer Parc Cenedlaethol, felly bydd angen gwneud trefniadau newydd gydag awdurdod y Parc Cenedlaethol adeg pob adolygiad.

2.6. Lle bo'n berthnasol, dylid cymryd bod pob cyfeiriad at 'awdurdodau priffyrdd lleol' yn y canllawiau hyn yn cynnwys awdurdodau parciau cenedlaethol sydd wedi trefnu i gynnal y swyddogaethau hyn ar y cyd dan yr adran hon.

**Dyletswyddau a chyfrifoldebau statudol eraill**

2.7. Mae gan awdurdodau lleol, a chyrff cyhoeddus eraill, sawl dyletswydd a chyfrifoldeb arall sy'n berthnasol i Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Roedd rhai ohonynt yn bodoli adeg y Cynlluniau Gwella cyntaf, tra bod

eraill wedi'u cyflwyno'n fwy diweddar ac angen eu cynnwys yn y cynlluniau newydd.

2.8. Mae Rhan 2 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 yn pennu saith nod llesiant ac yn rhoi dyletswydd ar bob corff cyhoeddus yng Nghymru i gyflawni datblygu cynaliadwy. Mae'n ofynnol i awdurdodau bennu a chyhoeddi amcanion ["amcanion llesiant"] sydd â'r nod o'i helpu i gyfrannu i'r eithaf at gyrraedd y nodau hynny a chymryd camau rhesymol i weithredu ei swyddogaethau er mwyn cyflawni'r amcanion hynny, a ddiffinnir ymhellach yn adran 4 o Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol:

- Cymru lewyrchus
- Cymru gydnerth
- Cymru iachach
- Cymru sy'n fwy cyfartal
- Cymru o gymunedau cydlynus
- Cymru â diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu
- Cymru sy'n gyfrifol ar lefel fyd-eang

2.9. Mae Deddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 ["Deddf 2013"] yn rhoi dyletswydd ar Awdurdodau Lleol i sicrhau llwybrau teithio llesol newydd a chyfleusterau cysylltiedig, i sicrhau gwelliannau i lwybrauy a chyfleusterau cyfredol ym mhob blwyddyn, a hyrwyddo siwrneiai teithio llesol [6]. Mae Adran 9 o Ddeddf 2013 yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau lleol gymryd camau rhesymol, i'r graddau ag y bo'n ymarferol, i wella'r ddarpariaeth i gerddwyr a beicwyr wrth ymarfer swyddogaethau penodol gan gynnwys rhai'n ymwneud â chreu, gwella, cynnal a gorfodi mewn perthynas â phriffyrdd (gan gynnwys hawliau tramwy cyhoeddus) dan rannau 3, 4, 5, 9 a 12 o Ddeddf Priffyrdd 1980.

2.10. Roedd Deddf Cydraddoldeb 2010 ["y Ddeddf Cydraddoldeb"] yn dwyn ynghyd sawl darn o ddeddfwriaeth gwahaniaethu ac yn cymryd lle'r Ddeddf Gwahaniaethu ar sail Anabledd 1995 i raddau helaeth. Mae'r Ddeddf Cydraddoldeb yn pennu nifer o '*nodweddion gwarchodedig*: oedran, anabledd, ailbennu rhywedd, priodas a phartneriaeth sifil, beichiogrwydd a mamolaeth, hil, crefydd neu gred, rhyw a chyfeiriadedd rhywiol. Mae'r Ddeddf yn ei gwneud hi'n anghyfreithlon

[6] http://gov.wales/topics/transport/walking-cycling/activetravelact/implementation/?skip=1&lang=cy

i wahaniaethu'n uniongyrchol neu'n anuniongyrchol yn erbyn rhywun ar sail y nodweddion hynny. Mae Adran 149 yn cyflwyno 'dyletswydd cydraddoldeb ar y sector cyhoeddus' hefyd sy'n ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau ystyried yr angen i – ddileu gwahaniaethu, aflonyddu, erledigaeth, ac unrhyw ymddygiad arall sydd wedi'i wahardd gan neu dan y Ddeddf Cydraddoldeb; gwella cyfle cyfartal rhwng pobl sy'n rhannu *nodwedd warchodedig* a phobl nad ydynt yn ei rhannu; a meithrin perthynas dda rhwng pobl sy'n rhannu *nodweddion gwarchodedig* perthnasol a phobl nad ydynt yn eu rhannu. Dylai awdurdodau ofalu eu bod yn gyfarwydd â gofynion y Ddeddf Cydraddoldeb a rhoi sylw priodol i'r cyfoeth o ganllawiau sydd ar gael. Dylid ymgorffori egwyddorion y Ddeddf Cydraddoldeb yn llawn mewn Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, a rhaid eu hystyried ym mhob cam o'r broses.

2.11. Mae Adran 3 o Deddf Llywodraeth Leol 1999 yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau lleol drefnu i sicrhau gwelliannau parhaus wrth arfer eu swyddogaethau, ar ôl ystyried cyfuniad o arbedion, effeithlonrwydd ac effeithiolrwydd. Wrth wneud hyn, rhaid i awdurdodau ymgynghori, ymhlith eraill, â chynrychiolwyr pobl sy'n defnyddio neu'n debygol o ddefnyddio gwasanaethau a ddarparir gan yr awdurdod. Bydd y gofynion yn berthnasol i baratoi a gweithredu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

**Cysylltiadau â chynlluniau eraill**

2.12. Efallai bod gan awdurdodau lleol gynlluniau a strategaethau eraill ar waith ar gyfer meysydd gwaith cysylltiedig, fel cynllunio, cymunedau, byw'n iach, addysg, hamdden, cefn gwlad, chwaraeon, twristiaeth, tirwedd a thrafnidiaeth, neu eu bod wrthi'n datblygu cynlluniau o'r fath. Dylai'r cynlluniau a'r strategaethau cysylltiedig ddarparu'r cyd-destun a'r amcanion trosfwaol ar gyfer Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy a ddylai, yn eu tro, ddylanwadu ar y meysydd hyn o gyfrifoldebau'r awdurdodau lleol.

2.13. Yn arbennig, dylai awdurdodau lleol wneud pob ymdrech i integreiddio eu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy gyda gwaith mapio Teithio Llesol yn ogystal ag unrhyw Gynlluniau Llesiant, Cynlluniau Datblygu Lleol, y cynllun trafnidiaeth lleol ar gyfer yr ardal a Datganiadau Ardal a ddatblygir dan Ddeddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016. Dylai awdurdodau sicrhau hefyd y cydgysylltir y gwaith o weithredu'r cynlluniau hyn i'r graddau y bo modd.

2.14. Gall integreiddio â chynlluniau ac agendâu eraill roi cyfle i fanteisio ar ffynonellau cyllid newydd neu feithrin partneriaethau adeiladol er

mwyn cyflawni canlyniadau'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy. Ceir rhagor o ganllawiau ynghylch integreiddio â chynlluniau eraill ym mhennod 4.

**Cyllid ac adnoddau**

2.15. Roedd y gofyniad i baratoi ac adolygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn ddyletswydd newydd dan Ddeddf 2000, ac ers 2001 mae Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid i awdurdodau lleol trwy setliad blynyddol i gydnabod hyn. Os oes trefniadau gweithio ar y cyd rhwng Awdurdod Parc Cenedlaethol ac awdurdod priffyrdd lleol er mwyn llunio a gweithredu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, yna mae angen i bartion gysylltu â'i gilydd er mwyn cytuno ar unrhyw drefniadau cyllido.

2.16. Tra bod Llywodraeth Cymru wedi darparu cyllid ychwanegol er mwyn helpu i weithredu'r cylch cyntaf o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, ni ddylid cymryd y bydd cyllid tebyg ar gael yn y dyfodol.

## 3. DATBLYGU CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY NEWYDD

3.1. Cydnabyddir nad oes gan awdurdodau yr un adnoddau o reidrwydd i adolygu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ag a oedd ganddynt ar gyfer datblygu'r cynlluniau cychwynnol. Bydd awdurdodau felly'n gorfod dehongli'r gofynion yn rhesymol yn unol â'u hamgylchiadau eu hunain. Rhaid i awdurdodau fodloni'r gofynion statudol, dylent fynd i'r afael â materion atodol, a dylent sicrhau bod eu cynlluniau'n seiliedig ar dystiolaeth dda. Fodd bynnag, mater i bob awdurdod yw penderfynu sut y byddant yn bodloni'r gofynion hyn.

3.2. Rhaid i Gynllun Gwella Hawliau Tramwy gynnwys dwy elfen statudol:

- **Asesiad** o hawliau tramwy lleol;
- **Datganiad Gweithredu** ar gyfer rheoli a gwella hawliau tramwy lleol.

3.3. Mae adborth gan awdurdodau lleol yn pwysleisio'r angen i wneud Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn fwy hyblyg ac ymatebol i amgylchiadau sy'n newid. Felly, yn ychwanegol at yr elfennau statudol, gofynnir i awdurdodau gynnwys **'Cynlluniau Cyflawni'** fel atodiad i'r prif gynllun. Bydd y rhain yn gyfle i adolygu cynnydd yn rheolaidd ac unrhyw newidiadau mewn amgylchiadau ac, mewn ymateb, yn egluro sut y bydd amcanion y Datganiad Gweithredu yn cael eu rhoi ar waith dros gyfnod penodol o amser.

3.4. Gellir adnewyddu Cynlluniau Cyflawni yn achlysurol heb orfod adolygu'r Cynllun Gwella yn ei gyfanrwydd, ond bydd yn dal i ffurfio rhan o'r cynllun o safbwynt y cyhoedd; gan olygu mai dim ond un ddogfen y bydd angen ei hystyried er mwyn deall sut mae'r awdurdod yn rheoli ei rwydwaith a pham. Dylai Cynlluniau Cyflawni gynnwys:

- Gwerthusiad o'r graddau y cyflawnwyd y Cynllun Cyflawni blaenorol[7]
- Adolygiad o bolisïau allweddol ar gyfer gwaith Hawliau Tramwy
- Cynlluniau gweithredu CAMPUS a chynlluniau gwaith manwl

[7] Nid yw hyn yn ofynnol ar gyfer y Cynllun Cyflawni cyntaf mewn Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

Mae canllawiau manylach ar ddatblygu ac adnewyddu Cynlluniau Cyflawni ar gael ym mhennod 6.

**Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ar y cyd**

3.5. Tra bod Deddf CRoW yn gwneud darpariaeth benodol i awdurdodau gydweithio â Chynghorau Dosbarth (yn Lloegr) ac Awdurdodau Parciau Cenedlaethol, rhagwelwyd ar y cyfan y byddai pob awdurdod priffyrdd lleol yn paratoi cynllun unigol ar gyfer ei ardal ei hun.

3.6. Fodd bynnag, nid oes dim yn y ddeddfwriaeth sy'n gwahardd mwy nag un awdurdod priffyrdd cyfagos rhag cydweithio i ddatblygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ar y cyd. Er nad yw'r dull hwn wedi'i ddilyn yng Nghymru, llwyddodd rhai o awdurdodau Lloegr i gynhyrchu Cynllun Gwella ar y cyd yn ystod y cylch cyntaf[8].

3.7. Gallai rhai o awdurdodau Cymru ystyried gweithio gydag un neu fwy o awdurdodau cyfagos i greu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy rhyngddynt. Er bod heriau'n gysylltiedig â hyn, mae manteision posib hefyd; o ran adnoddau ac integreiddo. Bydd dull argymelledig y Cynllun Cyflawni yn golygu bod Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy ar y cyd yn haws i'w rheoli gyda'r gallu i gynnal asesiad cyfun, a phennu amcanion tymor hir strategol ar y cyd yn y Datganiad Gweithredu, ond gan adael cynlluniau gwaith a pholisi mwy manwl i Gynlluniau Cyflawni, a all gael eu cynhyrchu a'u diwygio'n unigol yn dibynnu ar adnoddau a gofynion pob awdurdod.

**Rôl Fforymau Mynediad Lleol**

3.8. Fforymau Mynediad Lleol yw un o'r mathau o gyrff a restrir yn adran 61(1) y mae'n rhaid ymgynghori â nhw cyn adolygu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, a disgwylir iddyn nhw fod yn rhan o'r broses drwyddi draw a chael y wybodaeth ddiweddaraf am gynnydd o ran datblygu a gweithredu'r cynlluniau ar ôl hynny.

3.9. Dylai cynnwys Fforymau Mynediad Lleol gwmpasu:

- Cynorthwyo i drin a thrafod trwy gysylltiadau â sefydliadau cenedlaethol, rhanbarthol a lleol;

[8] http://www.tyneandwearltp.gov.uk/documents/rowip/

- Llywio’r gwaith casglu data gan gynnwys y graddau y mae hawliau tramwy lleol yn diwallu anghenion y cyhoedd nawr a’u hanghenion posib yn y dyfodol;
- Cynghori ar sut y gellir gwella’r rhwydwaith ar gyfer y cyhoedd a lle mae pryderon rheoli tir penodol;
- Cynghori ar faterion cysylltiedig mynediad i gefn gwlad agored yn enwedig lle gall llwybrau llinol newydd fod yn ddymunol;
- Rhoi cyngor ar flaenoriaethu camau gweithredu;
- Cyflwyno sylwadau ar gynlluniau drafft cyhoeddedig;
- Helpu i ddatrys anghydfodau rhwng safbwyntiau gwahanol pan fo cynlluniau’n destun ymgynghori.




Diagram 1: Crynodeb o broses ac amserlen Cynllun Gwella Hawliau Tramwy

**Datblygu dogfennau hygyrch**

3.10. Mae Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn gynlluniau strategol, dogfennau ceisiadau, ac fel canllawiau ar flaenoriaethu adnoddau, ond maen nhw hefyd yn fodd i ennyn diddordeb cymunedau lleol a phartneriaid eraill mewn hawliau tramwy lleol.

3.11. Gall Cynlluniau Gwella clir a rhesymegol helpu'r cyhoedd i ddeall pam mae penderfyniadau'n cael eu cymryd a bydd cynlluniau â strwythur da yn helpu'r darllenydd i ddeall pam mae'r awdurdod wedi cymryd, neu wedi peidio cymryd, camau gweithredu penodol. Y nod fydd llunio dogfen sy'n dangos cynnydd clir, gyda'r anghenion a nodwyd yn yr Asesiad yn llywio'r ymrwymiadau strategol yn y Datganiad Gweithredu, sydd wedyn yn cael eu trosi'n gynlluniau a pholisïau gwaith yn y Cynllun Cyflawni.

3.12. Bydd defnyddio iaith syml gyda mapiau, diagramau a lluniau clir yn gwneud y cynnwys yn fwy hygyrch a haws i'w ddeall. Dylai awdurdodau priffyrdd lleol ystyried anghenion pobl, gan gofio'n benodol am y *nodweddion gwarchodedig* a amlinellir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, wrth baratoi eu cynlluniau.

3.13. Rhaid i awdurdodau sicrhau bod eu Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy Lleol yn cael eu paratoi yn unol â'u Cynllun Iaith Gymraeg. Disgwylir i Gynlluniau Gwella fod ar gael yn y Gymraeg a'r Saesneg.

**Enwi Cynllun Gwella Hawliau Tramwy eich awdurdod**

3.14. Os yw awdurdod yn dymuno defnyddio enw gwahanol ar gyfer ei gynllun, er enghraifft er mwyn adlewyrchu penderfyniad i ystyried darpariaeth mynediad ehangach yn ogystal â'r hawliau tramwy lleol, bydd angen iddynt nodi'n glir mai'r ddogfen yw eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy at ddibenion Deddf CRoW. Gallant wneud hyn trwy ddefnyddio naill ai is-bennawd neu ddatganiad amlwg yn y cyflwyniad. Rhaid i awdurdodau sicrhau y bydd aelod o'r cyhoedd sy'n chwilio am y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn gallu dod o hyd iddo'n hawdd a gweld mai dyna yw; er enghraifft wrth chwilio ar y we.

3.15. Dylai pob Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ddangos y dyddiad cyhoeddi yn glir ac mewn lle amlwg. Y ffordd fwyaf effeithiol o wneud hyn yw trwy ei gynnwys yn y teitl.

## 4. PARATOI'R ASESIAD NEWYDD

### Ymgynghoriad cychwynnol

4.1. Cyn cynnal adolygiad, mae adran 61(1) yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdod priffyrdd lleol yng Nghymru ymgynghori â'r canlynol:

- pob awdurdod priffyrdd lleol sy'n ffinio ar ei ardal;
- pob cyngor cymuned, y mae eu hardal o fewn eu hardal;
- awdurdod Parc Cenedlaethol ar gyfer unrhyw ran o Barc Cenedlaethol sydd o fewn eu hardal;
- unrhyw Fforwm Mynediad Lleol a sefydlwyd ar gyfer eu hardal nhw neu unrhyw ran ohoni;
- Cyfoeth Naturiol Cymru;
- unrhyw un y gall Cynulliad Cenedlaethol Cymru ei bennu trwy reoliadau mewn perthynas ag ardal yr awdurdod priffyrdd lleol;
- unrhyw un arall sy'n briodol ym marn yr awdurdod priffyrdd lleol.

4.2. Tra nad oes unrhyw fwriad i ddefnyddio'r pŵer creu rheoliadau dan adran 61(1)(g) i ychwanegu unrhyw ymgyngoreion statudol pellach, awgrymir bod awdurdodau yn ystyried ymgynghori hefyd â sefydliadau yn eu hardal sy'n ymgyngoreion ar gyfer gorchmynion hawliau tramwy .

4.3. Lle bo'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cynnwys ardal sydd wedi'i dynodi'n Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol, argymhellir y dylid ymgynghori â'r rheolwyr neu'r pwyllgor perthnasol hefyd.

4.4. Dylai'r ymgynghoriad hwn gael ei gynnal cyn gynted â phosib a dylai nodi cylch gorchwyl yr adolygiad a phwysleisio unrhyw wahaniaethau sylweddol o gymharu â'r dull a ddefnyddiwyd yn y Cynllun Gwella blaenorol. Byddai'n syniad da cysylltu â'r rhanddeiliaid mewnol perthnasol yn ystod y cam hwn hefyd.

### Gwneud asesiad newydd

4.5. Mae'r ddeddfwriaeth yn pennu materion penodol y mae'n rhaid eu hystyried mewn asesiad. Roedd Canllawiau Statudol 2002 yn darparu manylion pellach ar gynnwys disgwyliedig y cylch cyntaf o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy trwy ei gwneud yn ofynnol i gyflwr y

rhwydwaith hawliau tramwy gael ei asesu,  yn ogystal â'i gofnod cyfreithiol, cyhoeddusrwydd a gwaith rheoli, ynghyd â'r adnoddau sydd ar gael ac sy'n ofynnol i ddiwallu anghenion pobl.

4.6. Bydd angen i asesiadau newydd fynd i'r afael â'r materion statudol a'r materion atodol diwygiedig a nodir isod.

**Materion statudol**

4.7. Mae adrannau 60(3)(a) a 60(2) yn ei gwneud yn ofynnol i awdurdodau wneud asesiad newydd o'r canlynol:

- Y graddau y mae'r hawliau tramwy lleol yn bodloni gofynion y cyhoedd nawr ac yn y dyfodol;
- Y cyfleoedd a gynigir gan hawliau tramwy lleol i wneud ymarfer corff a dulliau eraill o hamddena a mwynhau'r awyr agored yn ardal yr awdurdod;
- Pa mor hygyrch yw hawliau tramwy lleol i bobl ddall neu rannol ddall ac eraill â phroblemau symudedd.

**Materion atodol**

4.8. Dylai'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy diwygiedig sicrhau eu bod yn mynd i'r afael â'r canlynol hefyd:

- Gwerthuso i ba raddau y cyflawnwyd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy blaenorol
- Gwerthusiad o gyflwr y rhwydwaith ar hyn o bryd a'i hanes
- Cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Teithio Llesol
- Cyfleoedd i gyfrannu at amcanion Llesiant
- Cyfleoedd i gyfrannu at gyflawni cynlluniau a blaenoriaethau eraill

**Gwerthuso'r broses o gyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy blaenorol**

4.9. Dylai rhan gynta'r Asesiad newydd gynnwys crynodeb o'r materion allweddol a nodwyd yn yr Asesiad blaenorol, sut oedd y Datganiad Gweithredu cychwynnol yn cynnig mynd i'r afael â nhw, ac i ba raddau y cafodd y camau hynny eu cyflawni. Dylai unrhyw gamau sy'n weddill gael eu heitemeiddio i'w hystyried yng ngoleuni'r Asesiad newydd.

4.10. Tra bod awdurdodau'n cael eu hannog i gyfuno Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy â chynlluniau ac agendâu eraill, cydnabyddir hefyd y bydd gan reolwyr mynediad eu blaenoriaethau eu hunain sy'n ymwneud yn benodol ag anghenion lleol defnyddwyr hamdden; a gallai

rhai ohonynt gyfrannu at dargedau hirsefydlog ac arwain ymlaen o gynlluniau gweithredu cyfredol Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy. Lle caiff y blaenoriaethau a'r targedau eu hategu o hyd gan dystiolaeth o angen cyhoeddus, ni ddylid eu heithrio o'r Cynllun Gwella newydd.

**Gwerthuso cyflwr presennol y rhwydwaith a'i gofnod cyfreithiol**

4.11. Yn ôl canllawiau 2002 roedd yn ofynnol cynnal adolygiad amrywiol iawn o'r rhwydwaith, y trefniadau rheoli cysylltiedig, y Map a'r Datganiad Diffiniol, cyflwr y rhwydwaith hawliau tramwy lleol, blaenoriaethau ac ymarfer ar gyfer gorfodi'r rhwydwaith, a darparu deunyddiau hyrwyddo.

4.12. Dylai awdurdodau wneud asesiad newydd o gyflwr presennol llwybrau tramwy lleol a'r ddarpariaeth mynediad ehangach os yw'r awdurdod yn dymuno hynny[9]. Dylai'r asesiad ystyried hefyd pa mor gywir a chyflawn yw'r Map a'r Datganiad Diffiniol, faint o geisiadau sy'n weddill ar gyfer Gorchmynion Addasu Mapiau Diffiniol a Gorchmynion Llwybr Cyhoeddus sydd gan yr awdurdod ar hyn o bryd, a sut mae gwybodaeth am y rhwydwaith a chyngor ar ddefnydd cyfrifol ar gael i'r cyhoedd. Dylai awdurdodau sicrhau eu bod yn darparu gwybodaeth am sefyllfa gyfredol unrhyw broblemau allweddol a nodwyd yn yr asesiad blaenorol.

4.13. Fel rhan o'r asesiad, gofynnir i awdurdodau gynnwys gwerthusiad cryno o ba mor gyflawn yw eu cofnod o gyfyngiadau a strwythurau awdurdodedig ar y rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus a'r prosesau sydd ganddynt ar gyfer eu hawdurdodi. Ni ragwelir y bydd awdurdodau yn cynnal adolygiad cynhwysfawr ond yn hytrach byddant yn darparu crynodeb byr sy'n nodi i ba raddau y mae cyfyngiadau wedi'u cofnodi ar y Datganiad Diffiniol a sut mae strwythurau newydd neu strwythurau eraill sydd heb eu cofnodi yn cael eu rheoli wrth gael eu codi, neu pan gynigir eu codi, ar hawliau tramwy cyhoeddus; boed yn rhan o orchmynion cyfreithiol neu'n annibynnol. Mae rheoli strwythurau'n briodol yn hollbwysig i fwynhad y cyhoedd o'r rhwydwaith, yn enwedig rhai â phroblemau symudedd, ac i allu'r tirfeddianwyr i reoli eu tir heb ormod o aflonyddwch. Bydd cynnwys yr

[9] Fel is-ffyrdd, tir comin a thir mynediad CRoW ac unrhyw dir arall y mae'r cyhoedd yn mwynhau mynediad iddo.

adran hon mewn Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn cyflawni tair swydddogaeth:

- hysbysu'r cyhoedd am y trefniadau lleol sy'n ymwneud â'u rheoleiddio;
- darparu darlun o'r ymarfer cyfredol ledled Cymru;
- darparu cyfle i awdurdodau ystyried eu gweithdrefnau ac, os oes angen, mynd i'r afael ag unrhyw broblemau a nodwyd.

4.14. Nid yw darpariaethau dan Ddeddf CRoW i weithredu dyddiad torbwynt yn 2026 ar gyfer cofnodi hawliau priffyrdd dros lwybrau oedd yn bodoli cyn 1949 wedi cychwyn yng Nghymru eto. Fodd bynnag, gan fod y darpariaethau'n parhau ar y llyfrau statud, dylai awdurdodau barhau i'w cadw mewn cof wrth ystyried eu rhwydwaith.

**Mynd i'r afael â materion statudol ac atodol**

4.15. Bydd angen i awdurdodau wneud asesiad gwrthrychol o anghenion y cyhoedd ar hyn o bryd a'r anghenion tebygol yn y dyfodol, gan roi sylw priodol i'r *nodweddion gwarchodedig* a restrir yn Neddf Cydraddoldeb 2010, ac adolygiad o gynlluniau a blaenoriaethau eraill, cyn ystyried i ba raddau y gallai'r rhwydwaith ddarparu cyfleoedd i ddiwallu anghenion y cyhoedd.

**Asesu angen y cyhoedd a nodi cyfleoedd**

4.16. Dylai awdurdodau nodi unrhyw astudiaethau, asesiadau a chynlluniau perthnasol nad oeddent ar gael adeg y Cynlluiau Gwella Hawliau Tramwy cyntaf sy'n gallu darparu gwybodaeth wrth asesu anghenion y cyhoedd nawr ac yn y dyfodol.

4.17. Roedd yr asesiadau o'r Cynlluniau Gwella cyntaf, wedi'u llywio gan Ganllawiau Statudol 2002, yn dueddol o ganolbwyntio ar anghenion *"defnyddwyr".* Bydd angen i Asesiadau diwygiedig sicrhau eu bod yn ystyried anghenion y cyhoedd yn ehangach, gan gynnwys rhai nad ydynt yn cymryd rhan mewn gweithgareddau awyr agored yn rheolaidd ar hyn o bryd. Dylai awdurdodau fod yn ofalus wrth ddefnyddio tystiolaeth i ddangos angen cyhoeddus sy'n weddol gynrychioliadol o'r boblogaeth heb gorgynrychioli grwpiau buddiant penodol.

4.18. Bydd grwpiau defnyddwyr mewn lle da i gynghori ar anghenion eu defnyddwyr a bydd ganddynt gyfraniad pwysig i'w wneud o ran sicrhau bod unrhyw waith arfaethedig i'r rhwydwaith hawliau tramwy y bwriedir iddo gyflawni agendâu eraill fel Teithio Llesol, yn fuddiol i ddefnyddwyr hamdden hefyd, ac o leiaf nad ydynt yn lleihau'r cyfleoedd sydd ar gael i'r rhai a gynrychiolir ganddynt.

4.19. Gan fod ffynonellau data newydd ar gael, ni ragwelir y bydd angen i awdurdodau gomisiynu eu harolygon cyhoeddus eu hunain. Fodd bynnag, efallai y bydd targedu gwaith ymgynghori ac ymgysylltu â rhanddeiliaid yn briodol i gael rhagor o wybodaeth am anghenion penodol y grwpiau a nodwyd; fel cymunedau lleol penodol neu grwpiau o bobl sy'n rhannu *nodweddion gwarchodedig* perthnasol, neu bartneriaid cyflawni posib.

4.20. Os yw awdurdodau'n dal i deimlo bod angen comisiynu arolwg neu ymgynghoriad i'w ddefnyddio yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yna dylent sicrhau bod gwybodaeth ategol wedi'i chynnwys, fel atodiad, yn ddigonol i ddangos ei fod yn ddibynadwy. Tra bydd y cynnwys yn dibynnu ar natur yr ymgynghoriad, dylid cynnwys materion fel methodoleg, maint y sampl, dull o ddewis cyfranwyr, ac enghreifftiau o unrhyw gwestiynau. Dylai awdurdodau asesu'n feirniadol pa mor ddibynadwy yw unrhyw dystiolaeth maen nhw'n dibynnu arni, a sicrhau bod unrhyw gasgliadau'n cael eu defnyddio mewn cyd-destun priodol. Gwiriwch, er enghraifft, nad yw unrhyw un o gwestiynau'r arolwg yn awgrymu ateb arbennig neu'n amwys.

4.21. Wrth ystyried y ddarpariaeth gyfredol, yn hytrach na chanobwyntio ar fylchau yn y rhwydwaith hawliau tramwy fel y cyfryw, neu ardaloedd lle mae diffyg statws penodol o briffordd, dylai awdurdodau nodi'r ardaloedd hynny lle mae tystiolaeth yn dangos nad yw angen cyhoeddus yn cael ei ddiwallu ar hyn o bryd, neu lle mae cynllun neu flaenoriaeth cysylltiedig wedi tynnu sylw at y fath angen, ac ystyried sut y gallai hawliau tramwy lleol gynnig cyfle i ddiwallu'r anghenion hynny.

4.22. Gall fod yn ddefnyddiol i awdurdodau ddefnyddio'r dystiolaeth sydd ar gael i dynnu sylw at ffactorau penodol fel: ardaloedd daearyddol, grwpiau o bobl, neu fathau o welliant sy'n cynnig y cyfle mwyaf i ddiwallu anghenion y cyhoedd. Yn y cam cynllunio gweithredu, gellir defnyddio'r rhain wedyn i asesu prosiectau neu bolisïau arfaethedig a thynnu sylw at bartneriaid neu ffynonellau ariannu posib. Lle defnyddir dull seiliedig ar ardal, bydd mapiau yn amhrisiadwy wrth gyflwyno tystiolaeth a chasgliadau i ddarllenwyr.

4.23. Dylai awdurdodau edrych y tu hwnt i ffiniau gweinyddol wrth asesu anghenion y cyhoedd a chyfleoedd i'w diwallu oherwydd y gallai anghenion yn ardal un awdurdod gael eu diwallu orau gan gyfleoedd mynediad mewn ardal arall.

**Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru**

4.24. Mae Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru (WORS) yn mesur lefelau cyfranogiad ac ymddygiad oedolion sy’n byw yng Nghymru mewn perthynas â hamdden awyr agored, gan gynnwys y manteision iechyd ac economaidd cysylltiedig. Mae’n ymdrin ag agwedd y cyhoedd tuag at fioamrywiaeth hefyd, ynghyd â’r camau mae pobl yn eu cymryd i warchod yr amgylchedd.

4.25. Dyma’r arolwg mwyaf o’r modd mae pobl Cymru yn ymgysylltu â’r amgylchedd, gyda rhyw 6000 o bobl wedi’u holi ym mhob un o’r 12 mis gydol y flwyddyn. Mae’n cynnwys oedolion o bob oed a chefndir sy’n byw mewn ardaloedd gwledig a threfol.

4.26. Hyd yma, mae’r arolwg wedi’i gynnal yn 2008, 2011 a 2014 a defnyddiwyd cymhariaeth o flwyddyn i flwyddyn i nodi unrhyw batrymau sy’n arwyddocaol yn ystadegol o ran ymddygiad neu’r galw o safbwynt hamdden dros yr amser hwnnw[10].

4.27. Mae’r arolwg yn darparu canlyniadau manwl am:

- Lefelau cyffredinol cyfranogiad mewn hamdden awyr agored anffurfiol
- Llefydd yr ymwelwyd â nhw ar dir a dŵr
- Mathau o weithgareddau
- Lefelau gweithgarwch corfforol
- Gwariant economaidd
- Pethau sy’n ysgogi pobl i ddefnyddio’r awyr agored
- Pethau sy’n rhwystro pobl rhag mynd i’r awyr agored
- Y galw yn y dyfodol am hamdden awyr agored
- Agweddau tuag at fioamrywiaeth

[10] Bydd y fersiwn nesaf o’r arolwg yn rhan o arolwg ehangach cenedlaethol Cymru. Mae’r fetholdoleg newydd wrthi’n cael ei datblygu, felly ni wyddom eto i ba raddau y bydd modd ei gymharu’n uniongyrchol ag Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru. Ni ddisgwylir i’r data gael ei gyhoeddi tan ganol 2017, felly mae’n annhebygol o fod ar gael i ddatblygu asesiadau. Fodd bynnag, rhagwelir y bydd y data newydd ar gael i lywio’r Cynlluniau Cyflawni parhaus.

- Ymddygiad o blaid yr amgylchedd

4.28. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn defnyddio'r canlyniadau i gynhyrchu sawl cyhoeddiad, ac mae pob un ar gael i'r cyhoedd ar y wefan[11]. Mae'r rhain yn cynnwys tablau data crai, adroddiadau technegol manwl, a dogfennau cryno o 'ffeithiau allweddol' ar gyfer llunwyr polisïau.

4.29. Mae Arolwg Hamdden Awyr Agored Cymru yn rhoi cipolwg unigryw ar lefelau gweithgarwch, ymddygiad ac agweddau pobl Cymru a rhagwelir y bydd yn gonglfaen i asesiadau Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

4.30. Nid yw maint y sampl yn ein galluogi i ddadansoddi canlyniadau fesul awdurdod lleol ond gellir ei ddefnyddio naill ai ar lefel Cymru gyfan neu ei rannu'n ardaloedd mwy lleol, a all ddarparu canlyniadau sy'n fwy perthnasol ar lefel ranbarthol.

4.31. Gellir dadansoddi arolygon 2008 a 2011 ar sail Ardaloedd Cynllun Gofodol Llywodraeth Cymru, sef:

- Y Gogledd-orllewin
- Y Gogledd-ddwyrain
- Y Canolbarth
- Sir Benfro
- Bae Abertawe
- Y De-ddwyrain

Nodwedd allweddol yr Ardaloedd Cynllunio Gofodol oedd y *"ffiniau niwlog"* nad oeddent yn dilyn ffiniau gweinyddol, a'r ffaith y bydd rhai awdurdodau'n perthyn i fwy nag un ardal[12]. Cafodd Arolwg 2014 ei newid i dair ardal Bwrdd Rhanbarthol Cymdeithas Llywodraeth Leol Cymru; Y Gogledd, Y Canolbarth a'r De-orllewin, a'r De-ddwyrain. [13]

**Pecyn cymorth 'Da i Bobl' Cyfoeth Naturiol Cymru**

[11] https://naturalresources.wales/our-evidence-and-reports/welsh-outdoor-recreation-survey/?lang=cy
[12] Gweler http://gov.wales/topics/planning/development-plans/wales-spatial-plan/?skip=1&lang=cy am fwy o wybodaeth am ardaloedd y cynllun gofodol.
[13] Rhagor o wybodaeth am ardaloedd y Byrddau Rhanbarthol yn http://www.wlga.gov.uk/regional-boards-networks-cym

4.32. Mae Cyfoeth Naturiol Cymru wedi datblygu adnodd seiliedig ar system gwybodaeth ddaearyddol er mwyn helpu i lywio penderfyniadau ar ddefnyddio a thargedu adnoddau mewn ardaloedd lle maent yn fwyaf tebygol o ddiwallu angen mwyaf y cyhoedd. Ar hyn o bryd, mae'r system yn cyfuno 140 o setiau data ar wahân mewn pecyn unigol ac yn ein galluogi i wneud cymariaethau ar sail ardal rhwng lefelau lles cymdeithasol, iechyd, amgylcheddol ac economaidd â lefelau mynediad a darpariaeth llefydd gwyrdd.

4.33. Disgwylir y bydd gwybodaeth leol o'r pecyn ar gael i Fyrddau Gwasanaethau Cyhoeddus a dylai awdurdodau chwilio am gyfleoedd i'w defnyddio i lywio'r asesiad.

**Gwneud defnydd o gynlluniau ac asesiadau lleol**

4.34. Ers y gyfres gyntaf o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, mae Llywodraeth Cymru wedi cyflwyno deddfwriaeth yn pennu sawl blaenoriaeth genedlaethol ar gyfer gwella lles, cynaliadwyedd, a'r amgylchedd yng Nghymru. Mae pob darn o ddeddfwriaeth yn cynnwys dulliau ar gyfer cyflenwi'r blaenoriaethau newydd hyn fel y gellir eu canolbwyntio a'u haddasu i ddiwallu anghenion ac amgylchiadau lleol.

**Mapiau Teithio Llesol**

4.35. Nod Deddf 2013 yw sicrhau mai teithio llesol yw'r dewis mwyaf atyniadol ar gyfer siwrneiau byrrach mewn ardaloedd dynodedig o Gymru gyda manteision o ran iechyd, yr amgylchedd, yr economi a threchu tlodi ac anfantais. Mae'n rhoi dyletswydd ar awdurdodau i fapio llwybrau Teithio Llesol cyfredol a phosib mewn ardaloedd a ddynodwyd gan Weinidogion Cymru a chyflwyno gwelliannau i'r ddarpariaeth o flwyddyn i flwyddyn.

4.36. Er bod Deddf 2013 yn ymwneud yn bennaf â theithio ymarferol yn hytrach na hamdden, mae'r canllawiau statudol cysylltiedig yn cydnabod nad yw'r ddau beth yn gwbl wahân a bod llwybr a ddefnyddir ar gyfer teithio llesol yn darparu cyfleoedd hamdden yn aml hefyd.

4.37. Mae Awdurdodau wedi creu Mapiau Llwybrau Cyfredol ar gyfer ardaloedd dynodedig, sy'n dangos pa lwybrau sy'n cael eu hystyried yn rhai sy'n diwallu gofynion Teithio Llesol ar hyn o bryd, ac roedd y canllawiau statudol cysylltiedig yn eu cyfarwyddo i ystyried Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy wrth ddatblygu'r mapiau.

4.38. Mae'n ofynnol i Awdurdodau greu Mapiau Llwybrau Integredig erbyn hyn, a fydd yn dangos lle mae angen llwybrau Teithio Llesol newydd neu well. Maen nhw'n debygol o gael eu llunio ochr yn ochr â'r

adolygiad o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy felly bydd trafod â chydweithwyr sy'n rhan o'r gwaith hwn yn hanfodol. Gall gweithio gyda chynllunwyr Teithio Llesol awgrymu partneriaethau posib ar gyfer darparu adnoddau neu gyflawni gwelliannau i hawliau tramwy lleol yn yr ardaloedd dynodedig.

4.39. Dylai Awdurdodau ystyried unrhyw fapiau a gynhyrchwyd ar gyfer eu hardal nhw dan y Ddeddf Teithio Llesol a nodi'r canlynol o fewn yr Asesiad:

- Unrhyw hawliau tramwy lleol sydd wedi'u nodi fel Llwybrau Teithio Llesol hefyd;
- Unrhyw hawliau tramwy lleol â'r potensial i ddod yn Llwybrau Teithio Llesol;
- Ardaloedd lle byddai creu hawliau tramwy lleol newydd yn ffordd effeithiol o ddiwallu anghenion lleol a nodwyd mewn Map Llwybr Integredig;
- Hawliau tramwy lleol a allai ddarparu dolenni cyswllt defnyddiol i Lwybrau Teithio Llesol.

**Asesiadau a Chynlluniau Llesiant Lleol**

4.40. Cafodd Deddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol (Cymru) 2015 ["Deddf 2015"] gydsyniad brenhinol ar 29 Ebrill 2015. Fodd bynnag, disgwylir y bydd y rhan fwyaf o'r darpariaethau perthnasol yn cael eu cychwyn, trwy reoliadau, cyn y dyddiad cau ar gyfer cyhoeddi'r Cynlluniau Gwella Hawliau Cyntaf cyntaf i'w hadolygu yng Nghymru.

4.41. Mae Deddf 2015 yn ei gwneud hi'n ofynnol i sefydlu Byrddau Gwasanaethau Cyhoeddus (i gymryd lle'r Byrddau Gwasanaethau Lleol anstatudol cyfredol) a fydd yn gorfod cynnal Asesiadau o Lesiant Lleol a Chynlluniau Llesiant Lleol. Disgwylir i'r byrddau newydd gael eu sefydlu tua diwedd chwarter cyntaf 2016 a byddant yn cynnwys cynrychiolaeth o'r awdurdod lleol, unrhyw fwrdd iechyd lleol perthnasol, unrhyw Awdurdod Tân ac Achub perthnasol yng Nghymru, a Cyfoeth Naturiol Cymru.

4.42. Disgwylir i Asesiadau Llesiant Lleol gael eu datblygu a'u cyhoeddi yn ystod y cyfnod pan fydd Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn cael eu drafftio, ond nid yw'r cynlluniau cysylltiedig yn debygol o gael eu cynhyrchu tan ar ôl i'r Cynlluniau Gwella gael eu cyhoeddi. Felly, byddai'n syniad da i gynllunwyr drafod â'u Bwrdd Gwasanaethau Cyhoeddus wrth wneud y gwaith datblygu craidd ar Gynlluniau Gwella i sicrhau eu bod yn integreiddio.

4.43. Gall Asesiadau Llesiant Lleol gynnwys dadansoddi lles categorïau penodol o bobl yr ardal, fel rhai sy'n rhannu nodwedd gyffredin fel y diffinnir ym Mhennod 1 rhan 1 o Ddeddf Cydraddoldeb 2010. Bydd asesiadau o'r fath yn arbennig o werthfawr i awdurdodau asesu'r materion sy'n codi yn adran 60(2)(c) o Ddeddf CRoW.

4.44. Bydd gofyn i awdurdodau lleol ddatblygu eu cynlluniau llesiant eu hunain hefyd, ac anogir cynllunwyr Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i drafod â chydweithwyr i sicrhau bod y naill yn integreiddio â'r llall.

**Datganiadau Ardal**

4.45. Cafodd Deddf yr Amgylchedd (Cymru) 2016 Gydsyniad Brenhinol ar 21 Mawrth 2016. Mae'n cyflwyno'r ddeddfwriaeth sydd ei hangen i gynllunio a rheoli adnoddau naturiol Cymru mewn ffordd fwy rhagweithiol, cynaliadwy a chydgysylltiedig.

4.46. Mae Rhan un o Ddeddf 2016 yn ymwneud â hyrwyddo rheoli adnoddau naturiol mewn ffordd gynaliadwy. Mae Adran 3(2) yn amlinellu'r prif amcan, sef; "*cynnal a gwella cydnerthedd ecosystemau a'r manteision a gynigir ganddynt ac, wrth wneud hynny, ddiwallu anghenion y cenedlaethau presennol o bobl heb beryglu gallu cenedlaethau'r dyfodol i ddiwallu eu hanghenion hwythau.*"

4.47. Mae'r rhan hon o Ddeddf 2016 yn cynnwys proses tri cham gan gychwyn gyda pharatoi a chyhoeddi Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol gan Cyfoeth Naturiol Cymru sydd yn ei dro yn llywio'r gwaith o baratoi Polisi Adnoddau Naturiol gan Weinidogion Cymru. Bydd dyletswydd ar Cyfoeth Naturiol Cymru i lunio Datganiad Ardal ar gyfer lleoliadau sy'n cael eu hystyried yn briodol ganddo er mwyn hwyluso'r dasg o weithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol.

4.48. Bydd Datganiadau Ardal yn nodi'r blaenoriaethau, y risgiau a'r cyfleoedd ar gyfer rheoli cynaliadwy yn yr ardal a sut mae Cyfoeth Naturiol Cymru yn bwriadu mynd i'r afael â nhw. Disgwylir i Cyfoeth Naturiol Cymru wedyn gymryd camau rhesymol i roi'r Datganiad ar waith ac annog eraill i wneud yr un fath. Cyn cyhoeddi'r Datganiad Ardal, bydd angen i Cyfoeth Naturiol Cymru ystyried a ddylid cynnwys cynllun, strategaeth neu ddogfen debyg arall ynddo, neu a ddylai'r Datganiad Ardal gael ei gynnwys mewn cynllun arall.

4.49. Bydd datblygu a chyhoeddi'r Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol, y Polisi Adnoddau Naturiol, a'r Datganiadau Ardal cyntaf yn digwydd rhwng cyhoeddi'r canllawiau statudol hyn a'r dyddiad cau ar gyfer cwblhau'r adolygiadau cyntaf o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy.

4.50. Tra bod yr amserlenni statudol ar gyfer cynhyrchu'r Adroddiad Cyflwr Adnoddau Naturiol a'r Polisi Adnoddau Naturiol wedi'u cynnwys yn Neddf 2016 (y naill yn bedwar mis a'r llall yn ddeg mis wedi'r dyddiad dod i rym) nid oes amserlenni penodedig o'r fath ar gyfer Datganiadau Ardal. Prif nod y Datganiadau yw hwyluso'r broses o weithredu'r Polisi Adnoddau Naturiol, felly – ac eithrio'r tri chynllun peilot – does dim disgwyl i'r Datganiadau cyntaf gael eu cynhyrchu tan o leiaf ddeng mis wedi i'r rhan honno o Ddeddf 2016 ddod i rym (h.y. o Ebrill 2017 ymlaen).

4.51. Bydd angen i Awdurdodau ystyried unrhyw Ddatganiadau Ardal, boed wrthi'n cael eu datblygu neu wedi'u cyhoeddi, a fydd yn effeithio ar eu hardal nhw, a dylent geisio cyfrannu at y gwaith datblygu er mwyn nodi'r cyfleoedd i integreiddio â Chynllun Gwella Hawliau Tramwy yn y camau cynnar. Hwyrach y bydd cyfleoedd i gydweithio ag awdurdodau eraill lle mae Datganiad Ardal yn croesi ffiniau gweinyddol. Mae Deddf 2016 yn cynnig dyletswyddau cyfatebol ar gyfer Cyfoeth Naturiol Cymru a chyrff cyhoeddus i ddarparu gwybodaeth a chymorth, helpu i gynhyrchu Adroddiad ar Gyflwr Adnoddau Naturiol neu ddatblygu a chyflwyno Datganiadau Ardal, ac i'r gweinidog roi cyfarwyddyd i gyrff cyhoeddus gymryd camau o'r fath. Efallai y bydd angen cynnwys ceisiadau neu gyfarwyddyd o'r fath mewn Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a gall fod yn bosib gofyn i Cyfoeth Naturiol Cymru ddarparu gwybodaeth dan y ddeddfwriaeth hon lle gallai helpu i gyflwyno Datganiad Ardal trwy'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

4.52. Ar hyn o bryd, mae tri 'Cynllun Adnoddau Naturiol' peilot ar waith yn nalgylchoedd afonydd Dyfi, Tawe a Rhondda. Byddant yn llywio'r gwaith o ddatblygu Datganiadau Ardal pellach yn y dyfodol. Mae mynediad a hamdden wedi'u nodi'n ystyriaethau pwysig i randdeiliaid cymunedol sy'n rhan o'r cynlluniau peilot hyn, a bydd yr awdurdodau sy'n gyfrifol am yr ardaloedd peilot yn cael cyfle i bwyso a mesur eu cynnwys. Gan mai'r tebygrwydd yw y bydd Datganiadau Ardal yn cael eu cyflwyno ar hyd a lled Cymru dros amser, anogir pob awdurdod i ymddiddori yn eu datblygiad.

**Cynlluniau eraill**

4.53. Dylai cynllunwyr Cynllun Gwella Hawliau Tramwy ystyried cynlluniau perthnasol eraill hefyd yn eu hawdurdodau, cynlluniau partneriaid (yn enwedig rhai sy'n darparu cyfleoedd hamdden yn yr ardal), a chynlluniau awdurdodau cyfagos. Dylid chwilio am gyfleoedd i weithio ar y cyd.

**Ystyried buddiannau rheolwyr tir, treftadaeth a chadwraeth natur**

4.54. Tra bod Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy yn ymwneud â gwella hawliau tramwy er budd y cyhoedd, cydnabyddir bod angen ystyried buddiannau perchnogion tir hefyd, gan gynnwys rhai sy'n gysylltiedig ag amaethyddiaeth, coedwigaeth, treftadaeth a chadwraeth natur. Mae darparu mynediad da ac effeithiol i'r cyhoedd yn dibynnu ar gydweithrediad rhwng awdurdodau lleol a thirfeddianwyr. Felly, dylid ymgynghori â chynrychiolwyr rheoli tir yn gynnar yn y broses. Gall ymgynghoriad cynnar helpu i nodi lle mae manteision i'r naill a'r llall. Bydd dull cydweithredol wedi'i ddatblygu ar ddechrau'r broses yn helpu i weithredu'r cynllun hefyd. Gall Fforymau Mynediad Lleol fod yn ffordd ddefnyddiol o nodi ac ystyried rhai o'r materion hyn.

4.55. Gall ymgynghori ag amrywiaeth eang o reolwyr tir, yn enwedig lle mae darpariaeth mynediad wedi'i datblygu mewn ardaloedd dynodedig neu ar dir lle mae cynlluniau stiwardiaeth ar waith, ddatgelu cyfleoedd newydd o ran adnoddau neu bartneriaethau y gellir eu defnyddio i gyflawni amcanion Cynllun Gwella Hawliau Tramwy.

**Casgliadau'r Asesiad**

4.56. I grynhoi, tra bydd union natur yr asesiadau yn amrywio o awdurdod i awdurdod, disgwylir y bydd pob Asesiad o Gynllun Gwella Hawliau Tramwy yng Nghymru yn cynnwys y canlynol:

- Trosolwg o gyflawniadau'r Cynllun Gwella cyntaf a sut mae'r materion a ystyriwyd yn yr asesiad ohono wedi datblygu ers ei gyhoeddi;
- Asesiad trylwyr o'r dystiolaeth sydd ar gael sy'n gysylltiedig â'r angen cyhoeddus nawr a'r angen posib yn y dyfodol;
- Asesu i ba raddau y mae'r hawliau tramwy lleol yn diwallu anghenion y cyhoedd ar hyn o bryd a'r anghenion posib yn y dyfodol neu'n darparu cyfleoedd ar gyfer hynny;
- Gwerthusiad newydd o gyflwr y rhwydwaith, pa mor gyflawn a chywir yw'r Map a'r Datganiad Diffiniol, rheoli ceisiadau i newid hawliau tramwy cyhoeddus a hyrwyddo hamdden awyr agored;
- Trosolwg o'r elfennau cyffredin posib rhwng y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a chynlluniau a blaenoriaethau eraill a'r partneriaethau posib a allai ddeillio ohonynt er mwyn sicrhau'r manteision mwyaf i'r cyhoedd.

4.57. Dylai Awdurdodau gofio y dylai'r asesiad roi ystyriaeth arbennig i gymunedau neu grwpiau o bobl nad ydynt yn cymryd rhan mewn

hamdden awyr agored yn rheolaidd ar hyn o bryd.  Dylid rhoi ystyriaeth benodol i bobl ddall neu rannol ddall, a rhai â phroblemau symudedd. Dylai awdurdodau gofio hefyd am y nodweddion gwarchodedig y cyfeirir atynt yn Neddf Cydraddoldeb 2010.

## 5. PARATOI'R DATGANIAD GWEITHREDU NEWYDD

**Beth ddylid ei gynnwys?**

5.1. Mae Deddf CRoW yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol baratoi datganiad o'r camau gweithredu maen nhw'n bwriadu eu cynnig i reoli hawliau tramwy lleol, ac er mwyn sicrhau rhwydwaith gwell o hawliau tramwy, gan roi ystyriaeth i'r materion a drafodir yn yr asesiad[14].

5.2. Bydd y Datganiad Gweithredu'n cyflwyno ymrwymiadau strategol eang yr awdurdod tuag at ddiwallu anghenion a datblygu'r cyfleoedd a nodir yn yr asesiad, ond gall gynnwys materion eraill sy'n berthnasol i reoli'r hawliau tramwy lleol hefyd.

**Datganiadau Gweithredu a Chynlluniau Cyflawni**

5.3. Roedd canllawiau 2002 yn annog awdurdodau i ddefnyddio'r Datganiad Gweithredu i ddatblygu cynlluniau gwaith mwy manwl y tu allan i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, ond gyda chyfeiriadau at lle gellir eu canfod yn y Cynllun Gwella. Fodd bynnag, dim ond rhannol lwyddiannus oedd y dull hwn gyda llawer yn gweld bod rhannau o'u Datganiadau yn mynd yn llai perthnasol erbyn diwedd y cyfnod deng mlynedd.

5.4. Yn achos y cylch hwn o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, gofynnir i awdurdodau gynhyrchu Cynllun Cyflawni lle gallant gyflwyno eu hymrwymiadau a'u cynlluniau gwaith tymor byr. Dylid eu cynnwys fel atodiad i'r Cynllun Gwella, a dylent egluro sut bydd awdurdodau yn diwallu eu hanghenion tymor hir dros gyfnod penodedig o amser. Bydd Cynlluniau Cyflawni'n ategu'r Datganiadau Gweithredu ac yn galluogi Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy i fod yn fwy ymatebol i'r newid mewn amgylchiadau heb golli'r manteision o gyflwyno ymrwymiadau'r awdurdod mewn dogfen unigol.

5.5. Argymhellir mai dim ond y camau hynny sy'n ddigon hirdymor a strategol fel ei bod yn debygol na fyddant yn colli eu perthnasedd yn ystod oes deng mlynedd y Cynllun Gwella y dylid eu cynnwys mewn Datganiadau Gweithredu. Dylai camau gweithredu tymor byr a thymor

[14] Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, adran 60(1)(b)

canolig a rhai sy'n deillio o ddeddfwriaeth neu gynlluniau penodol eraill gael eu cynnwys yn y Cynllun Cyflawni, neu mewn polisïau hawliau tramwy.

5.6. Bydd angen adolygu Cynlluniau Cyflawni yn rheolaidd ac argymhellir bod awdurdodau yn eu hadolygu bob blwyddyn. Nid oes raid i'r adolygiad gynnwys archwiliad manwl bob amser. Gall awdurdodau, er enghraifft, ddatblygu cynlluniau gweithredu tair blynedd ond ystyried bob blwyddyn a yw'r cynlluniau hynny'n dal i fod yn addas neu angen eu diwygio neu eu disodli.

5.7. Roedd Atodlen 6 o Ran 1 o Ddeddf CRoW yn diwygio Deddf Priffyrdd 1980 er mwyn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol a'r Cynulliad Cenedlaethol ystyried unrhyw ddarpariaethau newydd mewn Cynllun Gwella ar gyfer ardal, wrth benderfynu a ddylid cadarnhau gorchmynion sy'n cynnig dargyfeirio, creu neu ddileu llwybrau cyhoeddus. Ar ben hynny, pan fo Cyfoeth Naturiol Cymru yn ystyried gwneud cais i'r Cynulliad Cenedlaethol dan adran 58(1) ar gyfer creu llwybr troed neu lwybr ceffylau er mwyn sicrhau mynediad i dir mynediad a grëwyd dan Ran 1 o Ddeddf CRoW, yna mae'n ofynnol iddyn nhw ystyried y Cynllun Gwella a baratowyd gan unrhyw awdurdod priffyrdd yn gyntaf.

5.8. Mae Arolygiaeth Gynllunio Cymru wedi dweud nad yw cynnwys Cynlluniau Cyflawni, nad ydynt wedi dilyn y broses statudol yn llawn, yn debygol o gael eu hystyried yn ddarpariaethau perthnasol o dan *adrannau 118(6A) neu 119(6A) o Ddeddf 1980.* Felly, dylai awdurdodau sicrhau bod y cynnwys yr hoffent gael ei ystyried felly, yn cael ei gynnwys yn y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy craidd.

**Cynnwys y Datganiad Gweithredu**

5.9. Dylai Datganiadau Gweithredu gael eu llywio gan, a dangos cysylltiadau clir â'r Asesiad a chynnwys:

- Amcanion a blaenoriaethau allweddol sy'n deillio o'r Asesiad;
- Ymrwymiadau strategol tymor hir;
- Manylion am beth gaiff ei adael i Gynlluniau Cyflawni, sut, a phryd y byddant yn cael eu hadnewyddu a'u cyhoeddi, gan gynnwys sut y bydd y broses weithredu'n cael ei gwerthuso a'i hadrodd fel rhan o'r broses honno;

- Bydd angen nodi manylion y broses sydd i'w dilyn i wneud unrhyw newidiadau i bolisïau allweddol sy'n ymwneud â hawliau tramwy lleol [15].

(Gweler pennod 6 am ragor o fanylion am ddatblygu ac adolygu Cynlluniau Cyflawni)

## 6. DATBLYGU AC ADNEWYDDU CYNLLUNIAU CYFLAWNI

6.1. Bydd Cynlluniau Cyflawni'n darparu cyfeiriad ac ymrwymiadau mwy manwl ac ymatebol er mwyn rheoli hawliau tramwy lleol dros y cyfnod penodedig[16]. Dylid cynnwys camau gweithredu neu ymrwymiadau sydd angen eu hailystyried ym marn yr awdurdodau yn ystod oes deng mlynedd y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy, mewn Cynllun Cyflawni yn hytrach na'r Datganiad Gweithredu.

6.2. Bydd Cynlluniau Cyflawni'n cynnwys tair rhan:

- **<u>Gwerthuso'r cynnydd</u>** o ran cyflawni'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a Chynlluniau Gweithredu blaenorol

- **<u>Adolygu'r polisïau</u>** ar gyfer rheoli hawliau tramwy lleol

- **<u>Cynlluniau gwaith CAMPUS[17]</u>** sy'n nodi a chyflwyno'r tasgau sy'n ofynnol i gyflawni prif amcanion y Datganiad Gweithredu er mwyn rheoli'r rhwydwaith yn well a'i wella dros y cyfnod cyflawni gan gynnwys:

    - Disgrifiad penodol o'r canlyniad
    - Sut y byddwch yn mesur, monitro ac adrodd am y cynnydd
    - Yr adnoddau gofynnol a'r adnoddau sydd ar gael
    - Pwy fydd yn cyflawni, a'r partneriaid cyflawni allweddol
    - Yr amcanion Datganiad Gweithredu a gyflawnir
    - Amserlen

---

[15] Er enghraifft, a fydd angen i bwyllgor eu hystyried neu a ellir eu cyflawni trwy bwerau dirprwyedig, sut fydd y Fforwm Mynediad Lleol yn rhan o hyn ac a fyddant yn ymgynghori ag unrhyw randdeiliaid eraill neu'r cyhoedd.
[16] Dylai'r cyfnod a gwmpasir gan y Cynllun Cyflawni fod wedi'i nodi'n glir mewn lle amlwg
[17] **C**yraeddadwy, **A**mserol, **M**esuradwy, **P**enodol, **U**chelgeisiol, **S**ynhwyrol

6.3. Ni ddylai adnewyddu Cynlluniau Cyflawni fod yn dasg feichus a rhagwelir y bydd y prosesau angenrheidiol, gyda chyfraniad perthnasol gan y pwyllgor, yn eu lle'n barod ar y cyfan. Bydd cynnwys y gweithdrefnau hyn fel rhan o broses Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn ei gwneud hi'n haws i'r cyhoedd gyrchu a deall y rhan hon o'r broses gynllunio a darparu cyfle i faterion a fu'n rhan o'r Datganiad Gweithredu o'r blaen, gael eu hadolygu a'u diwygio'n haws.

6.4. Bydd angen i Gynlluniau Cyflawni ddangos yn glir pryd fydd y cyfnod adolygu nesaf.

**Gwerthuso'r cynnydd o ran cyflawni Cynllun Gwella Hawliau Tramwy**

6.5. Mae monitro a gwerthuso rheolaidd yn bwysig er mwyn dangos manteision y buddsoddiad a darparu tystiolaeth i lywio cynllunio yn y dyfodol. Bydd y Cynllun Cyflawni cyntaf ar gyfer Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn cael ei lywio gan yr Asesiad yn y Cynllun Gwella craidd, ond bydd angen gwerthuso cynnydd pob Cynllun Cyflawni dilynol.

6.6. Bydd gwerthusiad o'r cynnydd yn ystyried i ba raddau:

- Mae'r cynlluniau gwaith blaenorol wedi'u cyflawni;
- Mae'r cyhoedd wedi elwa o ganlyniad i hynny;
- Mae pob ymrwymiad yn y Datganiad Gweithredu wedi'i gyflawni, hyd yma, yn ystod oes y Cynllun Gwella presennol.

Bydd hyn yn helpu i lywio'r set nesaf o gynlluniau gwaith a gall ddarparu'r cyfle hefyd i adrodd am gyflawni dyletswyddau statudol eraill fel amcanion Teithio Llesol neu amcanion Llesiant.

**Adolygu polisïau hawliau tramwy**

6.7. Roedd canllawiau Cynllun Gwella Hawliau Tramwy 2002 yn gofyn i awdurdodau adolygu eu prif bolisïau ar gyfer gwaith Hawliau Tramwy Cyhoeddus a'u dwyn ynghyd mewn datganiad clir.
Mae'n werth gallu cyrchu polisïau awdurdod, a'r dystiolaeth a'r rhesymau y tu ôl iddynt, o un ddogfen sydd ar gael i'r cyhoedd. Tra bydd y gofyniad hwn yn parhau yn y cylch hwn o Gynlluniau Gwella Hawliau Tramwy, gofynnir i awdurdodau sicrhau bod adolygiad o'r polisïau hyn yn cael ei gynnal fel rhan o Gynlluniau Cyflawni yn hytrach na'r Asesiad craidd.

6.8. Dylid adolygu'r holl bolisïau craidd ar gyfer rheoli hawliau tramwy lleol, gan gynnwys:

- Cynnal, gwella, a gorfodi hawliau tramwy cyhoeddus;
- Rheoli'r Map a'r Diffiniad Statudol;
- Awdurdodi a chofnodi cyfyngiadau;
- Ymdrin â newidiadau i'r rhwydwaith fel dargyfeirio, diddymu a chreu hawliau tramwy cyhoeddus.

6.9. Efallai y bydd rhai awdurdodau hefyd yn dymuno cynnwys polisïau cysylltiedig hefyd yn ymwneud â mathau eraill o fynediad cyhoeddus fel tir mynediad agored.

6.10. Wrth adolygu pob Cynllun Cyflawni, dylai awdurdodau lleol ystyried a yw eu polisïau hawliau tramwy yn dal i adlewyrchu anghenion, deddfwriaeth a blaenoriaethau cyfredol. Lle nad oes angen newid polisi cyfredol, dylid nodi hyn yn syml. Os oes angen newidiadau, dylid nodi'r rhesymau a sut yr aethpwyd neu sut y bwriedir mynd i'r afael â hyn.

6.11. Os yw'r awdurdod yn ystyried bod angen adnewyddu un neu fwy o'i bolisïau, bydd angen iddo ddilyn y broses yn y Datganiad Gweithredu er mwyn eu diwygio. Disgwylir i unrhyw bolisïau a adnewyddir, i'r graddau y maent yn ymwneud â materion dewisol, gyd-fynd â'r ymrwymiadau strategol sydd yn y Datganiad Gweithredu.

6.12. Dylai pob Cynllun Cyflawni gynnwys copïau o'r polisïau perthnasol diweddaraf a/neu ddolen i'r fersiwn ar-lein. Gallant nodi lle bydd modd gweld neu gaffael copi caled hefyd.

6.13. Dylai aelodau'r cyhoedd allu cael gafael ar bolisïau cyfredol yn hawdd, a dylao'r polisïau hynny ddweud pryd oedd y tro diwethaf iddynt gael eu hadolygu a'r tro nesaf. Dylid cadw copïau o bolisïau blaenorol a sicrhau eu bod ar gael i'r cyhoedd, naill ai trwy wefan yr awdurdod neu trwy ddulliau eraill ar gais (gweler Pennod 7 am ganllawiau pellach).

**Pennu Cynlluniau Gwaith CAMPUS**

6.14. Bydd Awdurdodau'n cael eu defnyddio i ddatblygu rhaglenni gwaith blynyddol a bydd ganddynt brosesau ar waith eisoes i wneud hyn. Rhagwelir y bydd y prosesau cyfredol hyn yn cael eu cynnwys yn y broses Cynllun Gwella Hawliau Tramwy i raddau helaeth yn hytrach na'u hailddyfeisio'n llwyr.

6.15. Gan na fydd Cynlluniau Cyflawni'n rhan o'r Cynllun Gwella craidd, ac y byddant yn cael eu hadolygu a'u diwygio gydol eu hoes, bydd yn bwysig sicrhau bod y camau arfaethedig yn cyd-fynd ag amcanion ac

ymrwymiadau'r Datganiad Gweithredu. Dylai Awdurdodau geisio cyflwyno eu Cynlluniau Gwaith CAMPUS mewn ffordd sy'n dangos yn glir pa amcanion ac ymrwymiadau y bydd pob cam gweithredu arfaethedig yn cyfrannu tuag atynt.

6.16. Fel y soniwyd yn yr adrannau blaenorol, mae'n bwysig bod Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy'n integreiddio â chynlluniau a blaenoriaethau eraill a bod y broses o gynllunio'r cam gweithredu a'r broses gyflawni wedyn wedi'u hintegreiddio hefyd.

6.17. Dylai Cynlluniau Gwaith CAMPUS nodi'r camau sy'n cyfrannu tuag at gynlluniau a blaenoriaethau eraill yn glir, yn enwedig (ond nid yn unig) cynlluniau Teithio Llesol, Llesiant ac unrhyw Ddatganiadau Ardal. Mater i'r awdurdod unigol yw sut mae gwneud hyn, er y bydd angen iddyn nhw sicrhau – fel rhan o'u gwaith monitro ac adrodd – bod unrhyw gamau sy'n cyfrannu at gynlluniau a blaenoriaethau statudol eraill yn cael eu cofnodi yn unol â'u gofynion penodol[18].

[18] Er enghraifft, adran 7(3) o Ddeddf Teithio Llesol (Cymru) 2013 sy'n ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau ddweud faint o gostau oedd yn gysylltiedig â'r ddyletswydd i wella llwybrau teithio llesol yn barhaus ym mhob blwyddyn ariannol.

## 7. CYHOEDDI A HYRWYDDO'R CYNLLUN DIWYGIEDIG

**Cyhoeddi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy drafft**

7.1. Mae Deddf CRoW yn ei gwneud hi'n ofynnol i awdurdodau priffyrdd lleol gyhoeddi fersiwn ddrafft o'u Cynllun Gwella newydd a rhoi hysbysiad mewn dau neu fwy o bapurau newydd lleol yr ardal, sy'n dweud sut y gellir gweld neu gael copi o'r cynllun, a sut y gellir ymateb iddo.

7.2. Rhaid sicrhau bod copi o'r cynllun drafft ar gael i'w archwilio, am ddim, ym mhrif swyddfeydd yr awdurdod ar bob adeg resymol. Rhaid rhoi copi i unrhyw un sy'n gofyn amdano, naill ai am ddim neu am dâl rhesymol a bennir gan yr awdurdod. Mae copi o'r cynllun drafft ar wefan yr awdurdod yn debygol o fodloni'r rhan fwyaf o geisiadau.

7.3. Dylai awdurdodau priffyrdd lleol ofyn am sylwadau gan awdurdodau cyfagos (yn enwedig y rhai maent fwyaf tebygol o gael eu cyfuno â nhw yn sgil adrefnu llywodraeth leol), cynghorau lleol eraill, awdurdodau Parc Cenedlaethol a thimau rheoli Ardal o Harddwch Naturiol Eithriadol lle bo'n berthnasol a sefydliadau lleol a chenedlaethol sy'n cynrychioli defnyddwyr, rheolwyr tir, busnesau twristiaeth ac eraill fel sy'n briodol. Dylid ymgynghori â Fforymau Mynediad Lleol yn ystod y cam hwn.

7.4. Fel gyda chanlyniadau asesiadau, dylai awdurdodau lleol geisio sicrhau bod eu cynllun drafft newydd ar gael mor eang â phosib i'r cyhoedd.

7.5. Dylai'r cynllun drafft a hysbysiadau sy'n gofyn am sylwadau nodi'n glir i ble dylid anfon sylwadau, ac erbyn pryd. Dylid caniatáu o leiaf 12 wythnos i anfon sylwadau.

7.6. Rhaid i awdurdodau priffyrdd lleol ystyried unrhyw sylwadau priodol a wneir[19] a'u cydnabod wrth eu derbyn. Ar ddiwedd y cyfnod ymgynghori, dylai'r awdurdod priffyrdd ysgrifennu at bob ymgynghorai a phawb gyflwynodd sylwadau ysgrifenedig, gyda chrynodeb o'r sylwadau a wnaed ac unrhyw newidiadau arfaethedig i'r cynllun drafft

[19] Sylwadau a wneir yn unol â'r hysbysiad

yn sgil hynny. Dylai'r llythyr nodi hefyd pryd mae disgwyl i'r cynllun terfynol gael ei gyhoeddi.

7.7. Os oes gwrthwynebiadau sylweddol i gynlluniau drafft, bydd angen i awdurdodau ystyried sut i fynd i'r afael â nhw a dylid gwahodd Fforymau Mynediad Lleol i gynghori ar atebion posib.

**Cyhoeddi'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy terfynol**

7.8. Ar ôl ystyried y sylwadau a gwneud unrhyw newidiadau, dylid cytuno ar gynlluniau terfynol a'u cyhoeddi. Rhaid i awdurdodau priffyrdd sicrhau bod copi o'r cynllun ar gael i'w archwilio, am ddim, ym mhrif swyddfeydd yr awdurdod ar bob adeg resymol. Rhaid rhoi copi i unrhyw un sy'n gofyn amdano, naill ai am ddim neu am dâl rhesymol a bennir gan yr awdurdod.[20]

7.9. Gall awdurdodau argraffu copïau papur o'r cynllun neu ei gyhoeddi'n electronig ar wefan y Cyngor. Os caiff ei gyhoeddi'n electronig, dylai bod modd ei lawrlwytho.

7.10. Er nad oes gofyniad statudol i gyhoeddi hysbysiadau mewn papurau lleol yn ystod y cam hwn, anogir awdurdodau lleol i wneud pob ymdrech i roi gwybod i'r cyhoedd eu bod wedi cyhoeddi'r cynllun newydd. Gellir gwneud hyn trwy ryddhau datganiadau i'r wasg, trwy wefan yr awdurdod a'r cyfryngau cymdeithasol, a thrwy grwpiau buddiant lleol.

7.11. Dylai awdurdodau priffyrdd lleol roi gwybod i'r rhai a gyfrannodd i'w Cynlluniau Gwella Hawliau Tramwy eu bod wedi cael eu cyhoeddi.

**Cyhoeddi Cynllun Cyflawni ar ei newydd wedd**

7.12. Proses fewnol fydd adnewyddu Cynlluniau Cyflawni i bob pwrpas. Mae'n anstatudol ac ni fydd yn newid yr egwyddorion a gafodd eu datblygu a'u cyfathrebu drwy'r broses Cynllun Gwella statudol.

7.13. Dylid cynnwys Fforymau Mynediad Lleol fel cynghorwyr yn ystod y broses o adnewyddu Cynlluniau Cyflawni, a byddant mewn sefyllfa hefyd i rannu gwybodaeth am y broses.

---

[20] Deddf Cefn Gwlad a Hawliau Tramwy 2000, adran 61(3)(b)

7.14. Tra dylai awdurdodau dynnu sylw'r cyhoedd at y gwaith o adnewyddu Cynlluniau Cyflawni ar wefan y Cyngor a'r cyfryngau cymdeithasol, does dim rhwymedigaeth i gynnal ymgynghoriad cyhoeddus penodol, er bod croeso i awdurdodau wneud hynny os dymunant.

7.15. Unwaith y daw'r Cynllun Cyflawni newydd i rym, dylai gymryd lle'r cynllun blaenorol fel atodiad i'r Cynllun Gwella Hawliau Tramwy sydd ar gael ar-lein, ac fel atodiad i unrhyw gopïau papur pellach sy'n cael eu darparu. Dylid bod modd cael gafael yn hawdd ar Gynlluniau Cyflawni blaenorol oherwydd gallant helpu'r cyhoedd i ddeall penderfyniadau cynharach. Efallai y bydd hi'n haws i awdurdodau gyhoeddi eu Cynllun Gwella Hawliau Tramwy a'u Cynllun Cyflawni ar-lein fel dogfennau PDF ar wahân fel bo'r broses ddiweddaru'n haws, er y dylent fod ar gael gyda'i gilydd yn yr un lle.

7.16. Bydd tynnu sylw at broses adnewyddu'r Cynllun Cyflawni yn gyfle hefyd i atgoffa'r cyhoedd a rhanddeiliaid bob hyn a hyn o'r ffaith fod y Cynllun Gwella Hawliau Tramwy yn bodoli ac yn berthnasol.

## 8. RHOI'R CYNLLUN GWELLA HAWLIAU TRAMWY AR WAITH

8.1. Ar ôl paratoi a chyhoeddi eu Cynlluniau Gwella, disgwylir i awdurdodau priffyrdd lleol reoli eu rhwydwaith yn unol â nhw a, cyhyd ag y bo modd, cyflawni'r ymrwymiadau yn y Datganiad Gweithredu a'r Cynlluniau Cyflawni.

8.2. Bydd gweithredu'r cynllun yn golygu cyfuniad o flaenoriaethu gwaith craidd cyfredol a chyflawni rhaglenni gwaith a phrosiectau penodol.

8.3. Mae'n debyg y bydd angen cyllid cyfalaf a refeniw er mwyn rhoi'r gwelliannau ar waith a sicrhau y gellir eu cynnal yn y tymor hir. Anogir awdurdodau priffyrdd i arloesi wrth chwilio am gyllid i gefnogi gwelliannau. Dylai awdurdodau ystyried cyllid gan gyrff y loteri, cynlluniau trafnidiaeth lleol, cyrff iechyd, cynlluniau Ewropeaidd, cynlluniau amaeth-amgylchedd a rhai ymddiriedolaethau elusennol. I lwyddo, bydd angen i'r partneriaethau cyllid cywir ddangos eu bod yn gwneud gwelliannau i'r rhwydwaith hawliau tramwy cyhoeddus am resymau sy'n gysylltiedig ag amcanion polisi ehangach, fel iechyd, lleihau'r ddibyniaeth ar geir, twristiaeth, llwybrau diogel i'r ysgol/gwaith neu ar gyfer eraill sy'n defnyddio'r ffyrdd sy'n agored i niwed, hygyrchedd i rai â symudedd cyfyngedig neu rai sydd wedi'u heithrio'n gymdeithasol.

8.4. Dylai rheolwyr Hawliau Tramwy fod yn agored i ystyried trefniadau partneriaeth amrywiol, gan gynnwys partneriaethau â pherchnogion tir, cynghorau cymuned ac awdurdodau eraill, neu gyda grwpiau cyswllt neu wirfoddol lleol.

8.5. Dylai rheolwyr Hawliau Tramwy ystyried y posibilrwydd o drefniadau gweithio mewnol arloesol hefyd. Er enghraifft, mae gan rai timau hawliau tramwy drefniadau cyfatebol llwyddiannus â'u Hadrannau Priffyrdd, gyda neu heb drosglwyddiad cyllideb cysylltiedig, lle maen nhw'n gyfrifol am reoli'r rhwydwaith is-ffyrdd heb wyneb caled a chydweithwyr Priffyrdd yn cynnal a chadw hawliau tramwy trefol ag wyneb caled. Gall trefniadau cyfatebol â thimau priffyrdd fod yn hynod ddefnyddiol lle mae angen uwchraddio hawliau tramwy trefol i fod yn llwybrau Teithio Llesol.

8.6. Bydd gwaith monitro a gwerthuso rheolaidd fel rhan o adolygiad o Gynlluniau Gweithredu yn galluogi awdurdodau i dynnu sylw at, a manteisio ar lwyddiannau penodol, a nodi a mynd i'r afael ag unrhyw

feysydd lle nad yw disgwyliadau wedi’u bodloni yn ystod y camau cynnar.